
Adroddiad ar Bwytewch y Llysiau i'w Llethu 2022 yng Nghymru

## Ynglŷn â Veg Power

Sefydlwyd Veg Power yn 2018 i newid yr arfer o fwyta llysiau yn y DU. Nid yw 80% o'n plant yn bwyta digon o lysiau, ac mae un rhan o dair ohonynt yn bwyta llai nag un dogn y dydd. Yr ystadegyn sy'n peri'r pryder mwyaf, efallai, yw bod 50% o rieni yn dweud eu bod wedi rhoi'r gorau i wneud ymdrech hyd yn oed. Ein cenhadaeth yw ysbrydoli plant i fwynhau llysiau er mwyn iddynt rannu'r arfer â'u rhieni heddiw a'u plant eu hunain yfory.

### Bwytewch y Llysiau i'w Llethu 2022

Yn 2018 roeddem wedi ffurfio partneriaeth allweddol ag ITV, a gyda'n gilydd aethom ati i greu'r ymgyrch Bwytewch y Llysiau i'w Llethu, a gynhaliwyd gyntaf yn 2019, gan wneud llysiau'n hwyl i blant.  Yn 2022, sef pedwaredd flwyddyn yr ymgyrch, ymestynnodd y rhaglen i gynnwys ymgyrch hysbysebu ar y teledu a gyrhaeddodd 36 miliwn o bobl, a rhaglen ysgolion a gyrhaeddodd dros 1 miliwn o blant mewn 3,845 o ysgolion cynradd, gan gynnwys pob ysgol yng Nghymru diolch i grant gan Lywodraeth Cymru.






## Yr Ymgyrch Hysbysebu

Unwaith eto, cefnogwyd y rhaglen gan ymgyrch hysbysebu gwerth £3.5 miliwn a arweiniwyd gan ITV, Channel 4 a Sky Media yn ogystal â 12 partner arall o'r cyfryngau. Cyrhaeddodd yr ymgyrch deledu 36.2 miliwn o unigolion ag amlder o 6.8, gan gynnwys 50% o'r rhai â phlant yn eu cartref (Ffynhonnell: TechEdge/Barb). Roedd yr holl hysbysebion teledu yn cynnwys ein prif noddwyr ar y sgrin derfynol. Dangosodd ein harolwg annibynnol ar ôl yr ymgyrch o 3,000 o rieni plant oed ysgol gynradd fod 51% o'r rhieni a'r plant yn cofio gweld yr hysbyseb. Mae'r ffigur hwn yn codi i 55% yng Nghymru diolch i gefnogaeth ehangach y rhaglen ysgolion.




Dangosodd ein harolwg o 100 o rieni a phlant yng Nghymru ymateb cadarnhaol iawn i'r ymgyrch hysbysebu.

**Hysbysebu ar y Teledu (Rhieni)**

| | |
|---|---|
| Mwynhaodd fy mhlentyn wylio'r hysbyseb hon | 78.05% |
| Roedd fy mhlentyn yn dymuno bwyta mwy o lysiau o ganlyniad i'r hysbyseb | 56.09% |
| Roeddwn yn dymuno bwyta mwy o lysiau o ganlyniad i'r hysbyseb | 34.15% |
| Bwytodd fy mhlentyn fwy o lysiau o ganlyniad i'r hysbyseb hon | 36.58% |
| Rhoddodd fy mhlentyn gynnig ar lysieuyn newydd o ganlyniad i'r hysbyseb hon | 36.58% |
| Chwaraeodd fy mhlentyn y llinell "Eat They to Defeat Them" yn ôl | 63.41% |

**Hysbysebu ar y Teledu (Plant)**

| | |
|---|---|
| Mae'r hysbyseb hwn yn gwneud i fwyta llysiau ymddangos yn fwy o hwyl | 77.96% |
| Mwynheais wylio'r hysbyseb hon | 91.53% |
| Rwyf wedi siarad â fy ffrindiau a fy nheulu am yr hysbyseb hon | 54.23% |

| | |
|---|---|
| Roeddwn yn dymuno bwyta mwy o lysiau o ganlyniad i'r hysbyseb hon | 71.19% |
| Bwytais fwy o lysiau oherwydd yr hysbyseb hon | 54.23% |
| Rwyf wedi rhoi cynnig ar lysieuyn newydd oherwydd yr hysbyseb hon | 57.63% |

## Y Rhaglen Ysgolion

Yn **2020** cawsom grant gwerth £28,719 gan Lywodraeth Cymru i gyfieithu ac ailgynllunio ein rhaglen ysgolion i fod yn ddwyieithog.  Gan weithio’n agos gyda Castell Howell, Synnwyr Bwyd Cymru a thimau arlwyo'r awdurdodau lleol yng Nghaerdydd, Caerffili a Bro Morgannwg, aethom â’r ymgyrch i 27,000 o blant mewn 100 o ysgolion ledled De Cymru, a dywedodd 66% o’r plant yn yr ysgolion a gymerodd ran ei bod yn gwneud llysiau’n fwy o hwyl, ac roedd 57% yn dweud eu bod wedi bwyta mwy o lysiau o ganlyniad.

Yn **2021** estynnwyd y rhaglen i 165 o ysgolion mewn 16 o awdurdodau lleol, gan gyrraedd 29,878 o ddisgyblion. Unwaith eto, cawsom ein cefnogi gan Castell Howell, Synnwyr Bwyd Cymru a thimau arlwyo’r awdurdodau lleol yn yr 16 awdurdod lleol hynny, yn ogystal â chyllid a chymorth gan Tilda a grant gwerth £9,500 gan Lywodraeth Cymru i dalu am y costau gwerthuso. Dywedodd 72% o'r plant mewn ysgolion a gymerodd ran yng Nghymru fod yr ymgyrch yn gwneud llysiau yn fwy o hwyl, a dywedodd 55% eu bod wedi bwyta mwy o lysiau o ganlyniad.

Yn **2022**, diolch i grant gwerth £165,659 gan Lywodraeth Cymru, ymestynnwyd y rhaglen i 264,923 o ddisgyblion mewn 1,139 o ysgolion ledled pob sir yng Nghymru. Dywedodd 78% o'r plant yn yr ysgolion a gymerodd ran yng Nghymru fod yr ymgyrch yn gwneud llysiau yn fwy o hwyl a dywedodd 72% eu bod wedi bwyta mwy o lysiau o ganlyniad.

Rydym wedi darparu'r canlynol i bob ysgol:



- Gwobrau a phecynnau sticeri i fynd adref gyda phob plentyn
- Posteri a bynting i hyrwyddo'r ymgyrch yn yr ysgol
- Sticeri i bob plentyn ar gyfer pob llysieuyn dan sylw (mae'r holl sticeri yn rhydd o blastig)
- Arweinlyfr i gefnogi ysgolion a thimau arlwyo i elwa i’r eithaf o'r ymgyrch
- Gwasanaeth ysgol i gychwyn yr ymgyrch mewn ysgolion
- Negeseuon e-bost wythnosol yr ymgyrch i bob ysgol
- Sesiwn friffio i rieni o’r enw “Paratoi am Fuddugoliaeth” er mwyn iddynt allu gwneud y mwyaf o’r ymgyrch yn eu cartref
- Gwefan gefnogol sy'n cynnwys blogiau ysbrydoledig gan ysgolion a rhieni, yn ogystal ag awgrymiadau, ryseitiau, a gweithgareddau pellach, gan gynnwys cynlluniau gwersi, celf a chrefft a phrosiectau tyfu.




Roedd yr holl asedau hyn a ddarparwyd yn ddwyieithog.

Ein harolwg o 100 o rieni a phlant yng Nghymru

**Y Rhaglen Ysgolion (Rhieni)**

| | |
|---|---|
| A oeddech yn ymwybodol o'r rhaglen Bwytewch y Llysiau i'w Llethu yn ysgol eich plentyn yn ystod yr wythnosau diwethaf? | 75.51% |
| Mwynhaodd y plant yn fawr | 69.39% |
| Roedd fy mhlentyn yn siarad mwy am lysiau o ganlyniad | 63.26% |
| Mae wedi gwneud i fy mhlentyn fwyta mwy o lysiau | 43.87% |
| Mae wedi gwneud i fy mhlentyn roi cynnig ar lysiau newydd | 46.94% |
| Gwnaeth fy mhlentyn yn fwy brwdfrydig am lysiau | 58.16% |

**Y Rhaglen Ysgolion (Plant)**

| | |
|---|---|
| Roeddwn wir wedi ei Mwynhau | 81.32% |
| Cafodd lawer o gefnogaeth gan yr ysgol | 75.83% |
| Cafodd lawer o gefnogaeth gan rieni | 53.85% |
| Cafodd lawer o gefnogaeth gan y tîm amser cinio | 71.43% |
| Roedd llawer o bobl yn siarad am yr ymgyrch | 64.84% |
| Siaradais fwy am lysiau | 69.23% |
| Bwytais fwy o lysiau | 72.52% |
| Rhoddais gynnig ar lysiau newydd | 68.14% |
| Gwnaeth i mi fod yn fwy brwdfrydig am lysiau | 71.42% |
| Rwyf wedi bod yn bwyta mwy o lysiau yn yr ysgol nag arfer | 65.31% |

Ymunodd Lynne Neagle AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant â ni i ymweld ag Ysgol Gynradd y Graig ym Merthyr Tudful. Roeddem hefyd wedi cyfarfod â grŵp o rieni er mwyn trafod a deall yn well yr heriau y maent yn eu hwynebu o ran cael eu plant i fwyta mwy o lysiau.











Dyma fideo byr o'n hymweliad: [https://youtu.be/3ogCB6UF-WM](https://youtu.be/3ogCB6UF-WM)

## Her yr Arlwywyr

Roedd pob wythnos yn cynnwys gwahoddiad i gefnogi un o hoff lysiau teuluoedd Prydain. Gofynnwyd i arlwywyr ysgolion baratoi dysglau sampl blasus o lysieuyn yr wythnos. Aeth rhai ysgolion amdani go iawn! Cafodd y goreuon eu cynnwys yn ein Horiel Anfarwolion, a dyfarnwyd gwobrau ariannol i'r timau arlwyo fel rhan o'n Her yr Arlwywyr, a noddwyd yn garedig gan Tilda.

Cafodd dwy ysgol yng Nghymru eu cynnwys yn ein Horiel Anfarwolion eleni:





Ysgol Cynfran yn Llysfaen yng Nghonwy Ysgol Gynradd Ffaldau ym Mhontycymer, Pen-y-bont ar Ogwr

## Siartiau Gwobrwyo a Phecynnau Sticeri

Cafodd pob un o'r plant ym mhob ysgol siart wal a phecyn sticeri dwyieithog i fynd adref gydag ef mewn amlen wedi'i brandio a oedd yn cynnwys brand Llywodraeth Cymru ar y tu blaen. Gofynnwyd i rieni yng Nghymru sut yr oedd yr ymgyrch yn gwneud iddynt deimlo tuag at ein



partneriaid ategol, a dywedodd 63.4% eu bod yn teimlo'n fwy cadarnhaol ac ni adroddodd yr un yn negyddol.




Yn ein harolwg o 100 o rieni a phlant yng Nghymru, gofynnwyd iddynt beth y gwnaethant gyda'r pecynnau hyn:

| | Rhieni | Plant |
|---|---|---|
| Wedi ei ddefnyddio a'i fwynhau'n fawr | 32.65% | 55.56% |
| Wedi ei ddefnyddio a'i fwynhau rywfaint | 30.61% | 25.93% |
| Wedi ei ddefnyddio ond heb ei fwynhau | 2.04% | 2.47% |
| Heb ei ddefnyddio | 13.27% | 13.58% |
| Ddim yn siŵr a wyf wedi'i ddefnyddio ai peidio | 21.43% | 2.47% |

Gofynnwyd iddynt hefyd am ei effaith ar eu cartref:

**Siart Wal a Phecyn Sticeri (Rhieni)**

| | |
|---|---|
| Roedd fy mhlentyn yn bwyta mwy o lysiau o ganlyniad | 40.81% |
| Roedd fy mhlentyn yn bwyta amrywiaeth ehangach o lysiau nag arfer o ganlyniad | 40.82% |
| Roedd fy mhlentyn yn fwy tebygol o orffen ei lysiau, a oedd yn lleihau gwastraff, o ganlyniad | 29.59% |
| Gwnaeth fy mhlentyn yn fwy brwdfrydig am lysiau | 53.06% |

**Siart Wal a Phecyn Sticeri (Plant)**

| | |
|---|---|
| Bwytais fwy o lysiau o ganlyniad | 54.32% |
| Bwytais amrywiaeth ehangach o lysiau nag arfer o ganlyniad | 53.09% |
| Gwnaeth i mi fod yn fwy brwdfrydig am lysiau | 64.20% |
| Roeddwn yn fwy tebygol o orffen fy llysiau o ganlyniad | 54.32% |

## Hybu'r Gymraeg

Cafodd ein hymdrechion ychwanegol yn 2022 ganlyniad cadarnhaol.

Yn ein harolwg bob blwyddyn rydym yn gofyn i rieni: *A ddysgodd eich plentyn unrhyw eiriau Cymraeg newydd o ganlyniad i weithgareddau Bwytewch y Llysiau i'w Llethu, naill ai gartref neu yn yr ysgol?*

Bob blwyddyn mae mwy yn ateb "do".

| | |
|---|---|
| 2020 | 16% |
| 2021 | 42% |
| 2022 | 45% |

Gobeithiwn barhau â'r gwaith da hwnnw a sicrhau bod yr holl asedau'n ddwyieithog yn 2023.

## Blas am Fwy

Yn ein harolwg i deuluoedd gofynnwyd i rieni a phlant yng Nghymru: *Pe byddech chi'n cael penderfynu, pa mor debygol y byddech o gynnal y rhaglen Bwytewch y Llysiau i'w Llethu yn eich ysgol chi/ysgol eich plentyn eto'r flwyddyn nesaf?*

| | Rhieni | Plant |
|---|---|---|
| Tebygol iawn | 54.08% | 53.85% |
| Eithaf tebygol | 23.47% | 24.18% |
| Ddim yn debygol nac yn annhebygol | 13.27% | 9.89% |
| Eithaf annhebygol | 3.06% | 1.10% |
| Annhebygol iawn | 1.02% | 3.30% |
| Ddim yn gwybod | 5.10% | 7.69% |



## Dirnadaeth Ychwanegol

Mae ein harolwg i deuluoedd o 100 o rieni a phlant yng Nghymru hefyd yn cynnig dirnadaeth ddiddorol ychwanegol o agweddau at lysiau:

**Agwedd at Lysiau (Rhieni)**

| | |
|---|---|
| Mae fy mhlentyn yn meddwl bod bwyta llysiau yn hwyl | 36.73% |
| Rwy'n meddwl bod angen i fy mhlentyn fwyta mwy o lysiau | 63.26% |

**Agwedd at Lysiau (Plant)**

| | |
|---|---|
| Rwy'n meddwl bod llysiau'n dda i mi | 92.86% |
| Rwy'n meddwl bod bwyta llysiau yn hwyl | 58.16% |
| Rwyf wedi bod yn bwyta mwy o lysiau gartref nag arfer | 52.05% |
| Rwyf wedi bod yn bwyta mwy o lysiau yn yr ysgol nag arfer | 65.31% |
| Mae llawer o bobl yn siarad am lysiau ar hyn o bryd | 61.22% |
| Hoffwn fwyta mwy o lysiau nag ydw i ar hyn o bryd | 53.06% |
| Mae fy rhieni'n ei chael hi'n anodd fy nghael i fwyta llysiau | 31.64% |
| Rwy'n hoffi rhoi cynnig ar lysiau newydd | 67.34% |

## Casgliadau

Credwn fod y rhaglen yn parhau i weithio'n dda, a chefnogir hynny gan ddata arolwg y DU ac arolwg teuluoedd Cymru.

Mae ein dadansoddiad econometrig o ddata gwerthiannau manwerthu, a ddarperir gan IRI Worldwide, yn dangos bod ymgyrchoedd 2019-2022 wedi arwain yn uniongyrchol at £132 miliwn ychwanegol o werthiannau llysiau dros bedair mlynedd.







Yn cal ei adnabod fel un o gynlluniau gwobrwyo mwyaf trwyadl a mawreddog, mae Gwobrau Effeithiolrwydd yr IPA yn gofyn i enillwyr i ddangos yr effaith sy'n cael ei greu gan weithgaredd marchnata a chyfathrebu.

Fe wnaeth Veg Power, ITV ac asiant adam&eveDDB nid yn unig ennill y wobr aur ond hefyd dderbyn Gwobr Arbennig yr Arlywydd ar gyfer Newid mewn Ymddygiad. Mae'r wobr yma, fel pob gwobr, yn mynd i'r miloedd o arwylwyr mewn ysgolion, athrawon a gweithwyr cymunedol sy'n gwneud Bwytewch y Llysiau I'w Llethu yn gymaint o lwyddiant.

